



17 Chwefror 2017

Annwyl

Cais am Wybodaeth – ATISN 11061

Ysgrifennais atoch ar 24 Ionawr ynghylch eich cais am wybodaeth. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth a ganlyn:

1. Unrhyw ohebiaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei derbyn ynglŷn â'r posibilrwydd o greu clwstr ('cluster') yn y diwydiannau creadigol o gylch pencadlys newydd arfaethedig S4C yng Nghaerfyrddin.
2. Unrhyw ohebiaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei hanfon ynglŷn â'r posibilrwydd o greu clwstr ('cluster') yn y diwydiannau creadigol o gylch pencadlys newydd arfaethedig S4C yng Nghaerfyrddin.
3. Copïau o unrhyw asesiadau a luniwyd gan neu ar gyfer Llywodraeth Cymru yn trafod yr achos honedig dros greu clwstr ('cluster') yn y diwydiannau creadigol o gylch pencadlys newydd arfaethedig S4C yng Nghaerfyrddin.

Rwyf wedi cynnal chwiliad cychwynnol am yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch ond rwyf wedi dod i'r casgliad y bydd yn costio mwy na'r terfyn addas a nodwyd yn Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004 i ystyried eich cais. Y terfyn priodol a bennwyd ar gyfer llywodraeth ganolog yw £600. Wrth gyfrifo a yw cais yn mynd dros y terfyn addas, gallaf ystyried yr amser y mae'n debygol o'i gymryd i ddod o hyd i'r wybodaeth, ei hadalw ac i dynnu'r rhannau perthnasol ohoni. Os amcangyfrifir y bydd y tasgau hyn yn cymryd mwy na 24 awr o amser gwaith i'w cwblhau, byddwn wedi mynd heibio'r terfyn.

Mae'r ymadroddion eang yn eich cais, lle rydych yn dweud '*unrhyw asesiadau*' ac '*unrhyw ohebiaeth*', a allai fod i unrhyw un neu gan unrhyw un, yn gwneud y chwiliad yn anodd iawn o ystyried faint o amser sydd wedi mynd heibio ers dechrau trafod greu pencadlys newydd.

Economi a'r Seilwaith -
Rhyddid Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Trefforest - Canolfan QED
Y Brif Rodfa
Ystad Ddiwydiannol
Trefforest
Pontypridd
CF37 5YR



BUDDSODDWYR | **INVESTORS**
MEWN POBL | **IN PEOPLE**

EconomyandInfrastructureFOI@wales.gsi.gov.uk
www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bu llawer iawn o ohebiaeth ynghylch posibilrwydd y prosiect hwn. Byddai chwiliad electronig am yr wybodaeth yr ydych wedi'i nodi yn dychwelyd llawer iawn o gofnodion, ac ni fydd y rhan fwyaf ohonynt yn berthnasol i'ch cais a gall nifer fod yn ailadroddus.

Cynhaliwyd ymarfer cwmpasu cychwynnol gan aelod o staff ar gronfa ddata Llywodraeth Cymru, *iShare*. *iShare* yw'r storfa gorfforaethol ar gyfer cadw'r rhan fwyaf o wybodaeth a grëwyd ac a gafwyd gan Swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhinwedd eu dyletswyddau. Rhaid i'r wybodaeth honno gael ei chadw at ddibenion busnes neu hanesyddol. Gwnaeth chwiliad syml ar *iShare* o'r gair "Egin" ddod o hyd i 2449 o ddogfennau, ac ni fydd pob dogfen sy'n berthnasol i'ch cais yn cynnwys y gair hwnnw, felly byddai angen mwy o ymchwil i dermau eraill gan sawl aelod o staff ar draws sawl adran wahanol. Os amcangyfrifir y byddai'n cymryd munud i ddarllen pob dogfen er mwyn gweld a yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol ac yna i dynnu'r rhan honno, byddai'n cymryd dros 40 awr i wneud yr ymarfer hwn yn unig. (Bydd angen mwy o amser i wneud chwiliadau eraill ar *iShare* a bydd angen ystyried gohebiaeth drwy e-bost gan aelodau eraill o staff.)

Hyd yn oed wrth amcangyfrif yn geidwadol, mae'r amser a'r adnoddau y byddai eu hangen er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth, ei hadalw ac i dynnu'r rhannau perthnasol ohoni yn cymryd llawer mwy na 24awr. Gan fod hyn yn mynd dros y terfyn addas a nodwyd yn Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004, rwyf wedi penderfynu peidio â phrosesu'ch cais.

Gallwch fireinio'ch cais drwy ddatgan yn fwy penodol pa wybodaeth yr hoffech ei chael, gan gynnwys unrhyw ddyddiadau neu gyfnod amser sy'n berthnasol i'r wybodaeth angenrheidiol. Er enghraifft, efallai yr hoffech i ni chwilio am wybodaeth sy'n ymwneud ag agwedd benodol ar y prosiect. Os ydych yn dewis mireinio eich cais fel hyn, bydd yn cael ei drin fel cais newydd. Byddwch mor fanwl a phenodol â phosib.

Efallai bod diddordeb gennych wybod ein bod yn delio â sawl cais sy'n ymwneud â'r un pwnc ar hyn o bryd. Bydd y manylion yn cael eu cyhoeddi ar Gofnod Datgeliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (<http://gov.wales/about/foi/responses/?skip=1&lang=cy>) maes o law.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad isod:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, neu e-bostiwch rhyddidgwybodaeth@cymru.gsi.gov.uk.

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych yr hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gwyn nes ei bod wedi mynd drwy'n proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

Uwch-Reolwr Datblygu Arloesedd